------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 253(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad gan Mondi ynghylch colledion swyddi ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint?

**Russell George (Sir Drefaldwyn)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i adroddiadau ynghylch dyfodol Flybe a'i effaith ar faes awyr Caerdydd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru

(60 munud)

**NDM7226** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2019.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2020.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Addysgu Hanes Cymru

(60 munud)

**NDM7228** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu hanes Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2020.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Trais a Chamdriniaeth Rywiol

(60 munud)

**NDM7229** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd mewn adroddiadau o drais rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

2. Yn mynegi cydymdeimlad ac undod â goroeswyr trais a chamdriniaeth rywiol.

3. Yn gresynu at fethiant parhaus nifer o systemau cyfiawnder troseddol ledled y byd i gynnig cefnogaeth i oroeswyr, a gresynu'r ffaith nad yw goroeswyr, yn rhy aml, yn cael eu credu ac yn cael eu gorfodi i ail-fyw profiadau erchyll drwy

brosesau llys dwys, a diwylliannau mewn heddluoedd nad ydynt yn credu dioddefwyr.

4. Yn nodi bod erlyniadau ar gyfer trais rhywiol ac euogfarnau yng Nghymru a Lloegr ar eu lefelau isaf ers degawd, a bod gwella cyfraddau euogfarnu'n rhan hanfodol o strategaeth atal trais.

5. Yn nodi bod comisiwn Thomas wedi dadlau mai dim ond datganoli deddfwriaethol llawn, ar y cyd â phwerau gweithredol, fydd yn goresgyn rhwystrau'r setliad datganoli presennol o ran mynd i'r afael â diffyg cyfiawnder ac atebolrwydd y status quo.

6. Yn galw i gefnogaeth a gwasanaethau ymosodiad rhywiol fod ar gael a chael eu hariannu'n ddigonol, ac i lysoedd gael eu haddasu fel y bydd dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn, nid eu dychryn, wrth roi tystiolaeth.

7. Yn galw i ddatganoli cyfiawnder fel y gallwn fynd i'r afael â'r cyfraddau euogfarnu isel hyn drwy fabwysiadu arfer gorau rhyngwladol ar gynyddu cyfraddau euogfarnu ac atal camdriniaeth a thrais rhywiol.

Adroddiad Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru – Hydref 2019

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Dileu pwyntiau 5 a 7.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 –** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nodi adroddiad Comisiwn Thomas ac yn diolch i'r Comisiwn am ei waith ar y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder gan edrych ymlaen at y ddadl a addawyd yn ystod amser y llywodraeth ar ganfyddiadau'r Comisiwn ac unrhyw effaith gaiff y rhain ar gynyddu cyfraddau euogfarnu ac atal camdriniaeth a thrais rhywiol.

**Gwelliant 4 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod adroddiad Arolwg Trais Rhywiol 2019 Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM wedi canfod bod nifer yr achosion a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth i gael

eu penderfynu gan yr heddlu a nifer yr achosion a erlynwyd gan y Gwasanaeth wedi disgyn, er gwaethaf bod adroddiadau o drais a gaiff eu cyflwyno i'r heddlu bron wedi dyblu.

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM - Arolwg Trais Rhywiol 2019 - Rhagfyr 2019

**Gwelliant 5 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi datganiad Llywodraeth y DU bod y canfyddiadau yn peri pryder mawr a'i bod wedi ymrwymo i adfer hyder yn y system gyfiawnder a darparu gwell cefnogaeth i ddioddefwyr.

Adroddiad HMCPSI ar gyfraddau euogfarnau trais rhywiol - 17 Rhagfyr 2019

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7227 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Dathlu Arwyr Cymru: Cyfraniad arwyr Cymru i broffil rhyngwladol ein gwlad.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 08/01/2020 i'w hateb ar 15/01/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Addysg

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

1 OAQ54913

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OAQ54910

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Cynllun Peilot Gwaith Chwarae Newyn Gwyliau?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

3 OAQ54924

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth mewn ysgolion?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

4 OAQ54914

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi cydraddoldeb i gymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg mewn gofynion prifysgolion yng Nghymru?

**Hefin David** *Caerffili*

5 OAQ54918

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion Adolygiad Reid?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OAQ54921

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Sir Gaerfyrddin?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**7** OAQ54926

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad cyllido ysgolion yng Nghymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**8** OAQ54928

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar y fframwaith Siarter Iaith?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**9** OAQ54899

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo ysgolion i addysgu pwysigrwydd perthnasoedd iach?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**10** OAQ54925

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau a gynhaliwyd gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot ynghylch ailagor Ysgol Gynradd Godre’r Graig?

**David Rees** *Aberafan*

**11** OAQ54911

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pellach am y cyllid o £2m a ddarperir ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl mewn addysg bellach?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**12** OAQ54898

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am absenoldeb mewn ysgolion yng Ngorllewin De Cymru?

# Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**1** OAQ54895

(w)

Pryd bydd y Gweinidog yn cyhoeddi gwerthusiad o gynllun canolfannau diagnosis cyflym Llywodraeth Cymru?

**David Rees** *Aberafan*

2 OAQ54912

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gyda byrddau iechyd a phartneriaid cysylltiedig i wella'r broses o drosglwyddo cleifion o ysbytai yn ôl i leoliadau cymunedol?

**Leanne Wood** *Rhondda*

3 OAQ54901

**(e)**

Pa fewnbwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael i wella gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OAQ54897

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ54922

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn methiant Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i gyrraedd ei darged amser ymateb am y tro cyntaf mewn pedair blynedd?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

6 OAQ54907

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella diagnosis canser yng Nghymru?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

7 OAQ54927

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr ymgyrch Dewis Doeth y gaeaf hwn?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

8 OAQ54904

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth awtistiaeth ym Mlaenau Gwent?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**9** OAQ54916

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yng ngwasanaeth iechyd Cymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

**10** OAQ54909

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gofal deintyddol y GIG yng Nghanol De Cymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

**11** OAQ54919

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am reoleiddio e-sigaréts?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**12** OAQ54900

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y meddygon teulu yng Nghymru?